# LC1166

| ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU | LEGISLATION COMMITTEE REPORT |
|---|---|

## Gorchymyn Awdurdod Datblygu Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Diddymu) 2005

Diben y Gorchymyn hwn yw trosglwyddo swyddogaethau, eiddo, hawliau a rhwymedigaethau Awdurdod Datblygu Cymru (yr "Awdurdod") i'r Cynulliad, yn darparu ar gyfer trosglwyddo staff o'r Awdurdod i'r Cynulliad ac yn gwneud darpariaethau canlyniadol, cysylltiedig, trosiannol ac atodol priodol. Mae hefyd yn diddymu'r Awdurdod.

## Rheol Sefydlog 11.7

Pennwyd un pwynt i adrodd arno dan Reol Sefydlog 11.7.

Yn nhestun Cymraeg Atodlen 2, mae pennawd paragraff 7 a'r ymadrodd arweiniol yn anghyflawn ac yn rhannol yn Saesneg. Ychwanegiad hwyr i'r testun yw hwn. [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

## Sylwadau

Llwyddodd Cynghorwyr Cyfreithiol y Pwyllgor i ystyried drafftiau cynharach o'r Gorchymyn hwn, a rhoddwyd y sylw priodol i faterion eraill a nodwyd. Mae ambell i bwynt fformat i'w gywiro wrth argraffu.

**Glyn Davies AC**

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

**15 Tachwedd 2005**